



# Cefnogi gofalwyr ifanc yn **Wrecsam**, **Sir Ddinbych** & **Chonwy**

Mae **7500** o  
ofalwyr ifanc  
yn yr ardal  
hon



# Gweithio gydag ysgolion



**Mae Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru** yn cefnogi ysgolion i'w helpu i nodi disgyblion sy'n ofalwyr ifanc. Yna, er mwyn cefnogi pob disgybl sy'n ofalwr ifanc, maent yn datblygu cynlluniau gyda'r nod o gynyddu presenoldeb a gwella canlyniadau addysgol.

**Mae Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru** yn defnyddio offeryn asesu unigryw, sy'n mesur yn gywir yr effaith y mae rôl ofalgar yn ei chael ar gyrhaeddiad, presenoldeb a lles emosiynol gofalwr ifanc mewn ysgolion.

**Mae Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru** yn cyflwyno sesiynau briffio staff, cynulliadau a gwersi ABGI i helpu i nodi a chefnogi disgyblion sy'n ofalwyr ifanc.

**Mae Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru** yn gweithio'n agos gydag ysgolion i sefydlu clybiau ar ôl ysgol yn yr ysgol sydd wedi'u teilwra'n benodol i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n ofalwyr ifanc.

## Cynllun

### 3 Cam

Mae craidd ein gwaith yn ymwneud â'n hofferyn asesu addysgol unigryw, sydd â hanes wedi'i brofi o gywirdeb ac sy'n sicrhau buddion gwirioneddol i ysgolion a disgyblion sydd eisoes yn rhan o'r rhaglen.

#### NODI

Rydyn ni eisiau gweithio gyda chi i'ch helpu chi i nodi a chefnogi mwy o blant sy'n ofalwyr ifanc.

#### ASESU

Mae ein "Offeryn Asesu" unigryw yn darparu ffordd ymarferol i ysgolion fesur faint o ofal y mae gofalwr ifanc yn ei wneud fel y gallwch deilwra cefnogaeth yn unigol; a thrwy hynny wella canlyniadau addysgol.

#### CYNLLUN GWETHREDU

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth o'r offeryn asesu i ddyfeisio cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion, gan gefnogi pob disgybl gyda strategaethau syml â therfyn amser. Mae'r strategaethau yma wedi'u cynllunio i gynhyrchu cynnydd sylweddol mewn canlyniadau addysgol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, lle bo hynny'n briodol, bydd **Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru** yn gweithio gydag ysgolion i atgyfeirio disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol y tu allan i'r ysgol at Ofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych, lle gellir sicrhau bod cefnogaeth plant a theuluoedd ar gael.

I ofyn am sgwrs ynglŷn â'ch ysgol/coleg yn manteisio ar y rhaglen rad ac am ddim hon i gefnogi gwell canlyniadau addysgol, cysylltwch â:

Jess Shingler | Swyddog Addysg Conwy

trwy e-bost [jessica.shingler@northwalesyoungcarers.org](mailto:jessica.shingler@northwalesyoungcarers.org)

org

neu drwy alwad ffôn ar **07716638394**

Donna Poynton | Swyddog Addysg Sir Ddinbych a Wrecsam

trwy e-bost [donna.poynton@northwalesyoungcarers.org](mailto:donna.poynton@northwalesyoungcarers.org)

org

neu drwy alwad ffôn ar **07921860236**



# Yr A, B, C o gefnogi gofalwyr ifanc

Mae plant sy'n ofalwyr ifanc yn anhygoel. Maent yn ymgymryd â rolau a gedwir fel arfer ar gyfer oedolion, ac ar yr un pryd yn ceisio bod yn blentyn. Yn aml, dim ond ychydig o help, anogaeth neu gefnogaeth ychwanegol sydd ei angen arny'n nhw, a dyna pam mae

**Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru** a **Sefydliad Neumark** wedi datblygu rhaglen gymorth arbennig i helpu gofalwyr ifanc yng **Ngogledd Cymru**.

## ADDYSG

Mae gofalwyr ifanc yn aml yn ei chael hi'n anodd cyrraedd eu potensial yn yr ysgol. Mae rhai'n teimlo'n ynysig tra bod eraill yn cuddio'u doniau fel y gallant gyflawni eu rôl ofalu. Mae ysgolion eisiau i bobl ifanc elwa'n wirioneddol o addysg, gan gynnwys gofalwyr ifanc. Dyma pam rydyn ni'n dod â rhaglen gymorth lwyddiannus iawn i ysgolion i Ogledd Cymru (gweler y manylion ar dudalen 2).



## SEIBIANT

Mae gofalwyr ifanc yn dweud wrthym mai'r peth maen nhw ei eisiau fwyaf yw seibiant o'u rôl ofalu: cyfle i fod gyda ffrindiau sy'n eu deall, cymryd rhan mewn gweithgareddau na all teuluoedd weithiau eu trefnu ac yn anad dim cael ychydig o hwyl. Dyma pam y bydd ein rhaglen yn cysylltu â darparwyr eraill ac ar y cyd byddwn yn cynnig ystod o gyfleoedd i ofalwyr ifanc roi rhywfaint o "hwyl" i mewn i'w plentyndod. Bydd hyn yn cynnwys rhaglenni gweithgaredd helaeth yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol a chlybiau cyfeillgarwch lleol mewn nall ai ysgolion neu leoliadau lleol eraill.

## CEFNOGAETH

Weithiau mae gan ofalwyr ifanc sefyllfaedd heriol iawn ac mae angen cefnogaeth arbenigol arnynt i helpu i wella eu lles emosynol a meddyliol, neu gefnogaeth deuluol ehangach. Mae Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddod o hyd i ffyrdd i gefnogi gofalwyr ifanc a'u teuluoedd. Er ein bod yn gwybod na allwn drwsio popeth, byddwn yn gwneud ein gorau i helpu gofalwyr ifanc i ddod o hyd i atebion a chefnogaeth sy'n gwella eu sefyllfa.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â  
**Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru**  
[info@northwalesyoungcarers.org](mailto:info@northwalesyoungcarers.org)  
0151 356 3176

# Sefydliad Neumark a Phrosiect & Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru

Mae Sefydliad Neumark wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru ac fe'i sefydlwyd yn 2016 gan y teulu Neumark.



**Peter  
Neumark**

Prif nod y Sefydliad yw cefnogi elusennau, grwpiau elusennol ac unigolion y mae eu gwaith yn cael effaith gadarnhaol hirhoedlog ar les ac ansawdd bywyd pobl ifanc, trwy wella rhagolygon a dewisiadau bywyd, gan eu hysbrydoli i fachu ar gyfleoedd newydd.

Ym mis Hydref 2019, dangosodd ymchwil gan **Brifysgol Nottingham** a'r **BBC** fod oddeutu un o bob pump o blant oed ysgol statudol yn ofalwr ifanc. Yn y DU, mae ymchwil yn dangos bod 50% o ofalwyr ifanc yn parhau i fod yn gudd, ac erbyn cyfnod TGAU, gallant fod cymaint â naw gradd yn is na'u grŵp cyfoedion mewn cyflawniad, yn ogystal â bod â chyfraddau presenoldeb llawer is.

Bydd y peilot cychwynnol yn rhedeg am 2 flynedd ar draws **Wrecsam**, **Sir Ddinbych** a **Chonwy**, i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i wasanaethau statudol a ddarperir eisoes trwy Wasanaethau Plant ac Addysg. Yn dilyn y peilot cychwynnol, rydym yn bwriadu cyflwyno templed cefnogaeth y gellir ymddiried ynddo i fwy o Ofalwyr Ifanc.

“Rydym yn gwbl ymrwymedig i gefnogi'r prosiect hwn yn ariannol i helpu i gefnogi Gofalwyr Ifanc trwy godi ymwybyddiaeth, nodi mwy o blant a phobl ifanc mewn rôl ofalgar, asesu anghenion cymorth addysgol, a chreu cynlluniau cymorth ac ymyriadau ar gyfer Gofalwyr Ifanc i'w galluogi i gael gwell siawns o gyrraedd eu potensial”

**Peter Neumark**

Mae Sefydliad Neumark hefyd yn ariannu ymchwil helaeth a fydd yn cael ei arwain gan yr Athro Saul Becker i werthuso'r prosiect, ond fydd hefyd yn edrych ar gwestiynau allweddol ehangach ynghylch cefnogaeth i Ofalwyr Ifanc a Gofalwyr Oedolion Ifanc.